



Archwiliad Sgiliau a Hyfforddiant

Sector Gwaith Ieuenctid yng Nghymru

Archwiliad Sgiliau a Hyfforddiant Gweithlu Gwaith Ieuencid 2024

Rhagair

Rydym yn croesawu'n gynnes yr adroddiad hwn ar yr Archwiliad Sgiliau a Hyfforddiant o'r sector Gwaith Ieuencid yng Nghymru. Dyma'r archwiliad cyntaf i gael ei gynnal ers 2013 ond mae ei gwmpas yn ehangach gan ei fod yn cynnwys mudiadau gwirfoddol, sy'n rhan hanfodol o symud ymlaen tuag at ddull gweithredu mwy integredig i ddatblygu'r gweithlu er mwyn cynnwys pawb sy'n ymgymryd â gwaith ieuencid yng Nghymru.

Mae'r Archwiliad Sgiliau a Hyfforddiant yn ffurfio rhan o ymarfer peilot i ddatblygu'r gweithlu Gwaith Ieuencid, ac mae'n sylfaen angenrheidiol i hyfforddi, cymhwyso a pharatoi Gweithwyr Ieuencid i wasanaethau pobl ifanc Cymru'n fwy effeithiol. Mae'n deillio o argymhellion a wnaethpwyd yn adroddiad y Bwrdd Gwaith Ieuencid dros dro 'Mae'n bryd cyflawni' er mwyn cyflawni model cynaliadwy ar gyfer Gwaith Ieuencid. Mae Bwrdd Gweithredu'r Strategaeth Gwaith Ieuencid wedi'i benodi i arwain y gwaith hwn ac mae'n cael ei gefnogi gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg.

Mae'r adroddiad hwn yn ganlyniad oriau lawer o ymgynghori, ymchwil, trafod, drafftio a golygu, ac rydym ni, fel Cadeiryddion Grŵp Cyfranogi Gweithredu Datblygu'r Gweithlu (WDIPG) a Safonau Addysg a Hyfforddiant Cymru (ETS), yn dymuno talu teyrnged i bawb sydd wedi cymryd rhan, yn enwedig Data Cymru a gynhaliodd yr archwiliad, Llywodraeth Cymru am ei ariannu a'i feirniadu, aelodau'r WDIPG, ein partneriaid ar draws Gwaith Ieuencid yng Nghymru, ein Swyddog Datblygu'r Gweithlu, Darryl White, am wneud iddo ddigwydd, ac wrth gwrs y rhai a roddodd o'u hamser, eu profiad a'u harbenigedd i gwblhau'r casgliadau data.

Bydd data o'r Archwiliad sydd wedi'i grynhof yn yr Adroddiad hwn yn cael ei gadw gan ETS a Data Cymru tan 2026, gan ddarparu sylfaen tystiolaeth hollbwysig er mwyn symud ymlaen, a'n galluogi i ddadansoddi ymhellach yn ôl yr angen, er enghraifft data daearyddol a demograffig penodol. Rydym yn canmol yr Adroddiad hwn ac yn hyderus y bydd y data a'r dadansoddiad yn ddefnyddiol i chi wrth sicrhau bod y Sector Gwaith Ieuencid wedi'i baratoi'n dda ar gyfer y dyfodol ac yn ei genhadaeth i wasanaethu pobl ifanc yng Nghymru.

Jo Sims – Cadeirydd y Grŵp Cyfranogi Gweithredu Datblygu'r Gweithlu Gwaith Ieuencid
Steve Drowley – Cadeirydd Safonau Addysg Hyfforddiant Cymru



Crynodeb byr o'r canfyddiadau

- Cafodd yr arolygon eu rhannu'n ddau. Cafwyd 501 o ymatebion i'r arolwg unigolion a 49 o ymatebion gan uwch arweinwyr ar ran eu sefydliadau.
- Cafwyd ymatebion i'r arolygon gan gyfran dda o Gymru gyfan, o'r sector gwirfoddol ac awdurdodau lleol fel ei gilydd.
- Mae angen y cymhwyster Gweithiwr Cymorth Ieuencid llawn ar nifer fawr o ymatebwyr er mwyn gallu cofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg.
- Roedd recriwtio a chadw staff yn parhau i fod yn her o fewn y sector. Mae'r adroddiad isod yn amlinellu'r darlun cyffredinol ar gyfer Gwaith Ieuencid yng Nghymru.
- Mae diogelu wedi cael ei amlygu fel maes i'w ymchwilio oherwydd, er bod y mwyafrif yn gymwys, roedd cyfran sylweddol o'r ymatebwyr naill ai'n anhyderus neu'n anhyderus iawn.
- Pennwyd bod angen cymwysterau sy'n cefnogi cyflawniad Gwaith Ieuencid, a fydd yn galluogi ymarferwyr i addysgu, asesu a sicrhau ansawdd cymwysterau.
- Mae ystod o bynciau dysgu proffesiynol wedi'u nodi fel angen hyfforddi a byddant yn cael eu cynnwys yn y rhaglen hyfforddiant a ddatblygwyd o ganlyniad.
- Mae Gwaith Ieuencid a gyflwynir trwy gyfrwng y Gymraeg wedi'i nodi fel maes i fynd i'r afael ag o ac i'w gefnogi er mwyn annog ymarferwyr i ddysgu'r iaith a'i defnyddio'n hyderus.
- Mae sefydliadau wedi adrodd bod rhwystrau arwyddocaol yn eu hatal rhag cael mynediad at hyfforddiant.

Methodoleg

Ym mis Tachwedd 2023, comisiynwyd Data Cymru gan Safonau Addysg Hyfforddiant (ETS) Cymru i gynnal ymarfer casglu data o'r newydd am sgiliau a hyfforddiant. Gofynnwyd i'r Awdurdodau Lleol a mudiadau'r sector Gwirfoddol gymryd rhan. Datblygwyd dau offeryn casglu data; un wedi'i anelu at unigolion ac un i'w gwblhau gan uwch arweinwyr mewn sefydliadau sy'n darparu gwaith Ieuencid yng Nghymru.

Oherwydd bod yr archwiliad hwn yn fwy o ran maint a chymhlethdod o'i gymharu â'r archwiliad a gynhaliwyd yn 2013, ychydig iawn o fethodoleg a dyluniad yr ymarfer casglu gwreiddiol a ddefnyddiwyd yn archwiliad 2024. Gan hynny, ni ellir cymharu data'r ddau ymarfer casglu.

Gweithiodd Data Cymru yn agos gydag ETS i fireinio manyleb, datblygu a phrofi'r ymarferion casglu, cynnal yr ymarferion casglu a gwneud gwaith dadansoddi ac adrodd.

Cafodd yr ymarferion casglu data dwyieithog eu datblygu a'u cynnal gan ddefnyddio offeryn arolygon ar-lein (SmartSurvey) a chawsant eu dosbarthu trwy ddolenni cyswllt a oedd ar gael yn gyhoeddus. Hyrwyddodd ETS yr arolygon trwy amryw o sianeli a dulliau, gan gynnwys:

- E-bost trwy Grŵp Prif Swyddogion Ieuencid (PYOG) ac aelodau Cyngor Gwasanaethau Ieuencid Gwirfoddol Cymru (CWVYS).
- Y Bwletin Gwaith Ieuencid
- Cyfryngau Cymdeithasol
- Gofynnwyd i Fwrdd Strategaeth Gweithredu Gwaith Ieuencid a'r holl Grwpiau Cyfranogi Gweithredu rannu'r arolygon o fewn eu rhwydweithiau.

Cynhaliwyd yr arolygon am 6 wythnos.

Trosolwg o'r arolygon

Roedd yr arolygon yn cynnwys cwestiynau caeedig yn bennaf, ond roedd rhai cwestiynau agored hefyd. Fodd bynnag, cafodd themâu neu eiriau cyffredin eu cynnwys lle bo hynny'n briodol, ond ni nodwyd amledd y themâu hyn gan na fwriedir i'r rhestr o themâu cyffredin fod yn un hollgynhwysol.

Fel unrhyw offeryn casglu data, mae gan arolygon gyfyngiadau, ac mae'n bwysig bod y rhain yn cael eu hystyried wrth ddehongli'r data. Isod rydym yn amlygu rhai o'r cyfyngiadau posibl a allai fod yn gysylltiedig â'r arolygon hyn:

- Roedd y dull samplio'n hynod ddibynnol ar ymgysylltiad ar-lein ac mae'n bosibl nad yw pob unigolyn yn gallu cael mynediad at y rhyngwrdd neu efallai nad ydynt yn aelodau o CWVYS neu ar gyfryngau cymdeithasol. Gan hynny mae'n bosibl bod rhai unigolion wedi'u methu yn y sampl a gallai hynny fod wedi gogwyddo'r canlyniadau yn ddarwybod. Gelwir hyn yn duedd samplio.
- Gan fod yr arolygon yn ddewisol, gallai tuedd hunan-ddewis fod yn fater hefyd. Tuedd hunan-ddewis yw'r posibilrwydd o gyflwyno anghywirdeb oherwydd bod safbwyntiau'r rheiny sy'n barod i ateb yn wahanol i safbwyntiau'r rheiny nad ydynt yn barod i ateb. Un o sgil effeithiau cyffredin tuedd hunan-ddewis yw cyflwyno canlyniadau eithriadol, h.y. mae'r rheiny sydd â safbwyntiau cadarnhaol neu negyddol cryf yn fwy tebygol o fod eisiau rhoi eu safbwyntiau.
- Mae arolygon yn dibynnu ar yr atebwyr i ddarparu gwybodaeth gywir. Dylai arolygon gael eu trin yn ofalus bob amser, oherwydd bydd rhywfaint o'r wybodaeth a ddarperir o bosibl yn anghywir neu'n farn yn hytrach na ffaith.

Arolwg sefydliadol

Cyflwynwyd 92 o ymatebion i'r ymarfer casglu sefydliadol, a oedd yn cynnwys 44 ymateb cyflawn a 48 ymateb rhannol.

O'r 44 o sefydliadau a ddarparodd ymatebion cyflawn, cwblhaodd pedwar ohonynt yr ymarfer casglu fwy nag unwaith. Gan hynny, datblygodd Data Cymru reolau i gyfuno'r ymatebion hyn at ddibenion lledaenu. Dangosir y rheolau hyn isod:

Cwestiynau aml ddewis – Cafodd yr holl opsiynau a ddewiswyd eu cynnwys fel un ymateb
Cwestiynau un dewis (ar wahân i Ffigur 48)

- Pan ddarparwyd ymateb 'ydy', cymerwyd hwn fel un ymateb.
- Pan na ddarparwyd ymateb 'ydy', cymerwyd 'na' fel un ymateb.
- Fel arall, cymerwyd 'Ansic' fel un ymateb.
- Ar gyfer Mae'r adran isod yn ymwneud â dealltwriaeth o'r darlun recriwtio sy'n wynebu sefydliadau wrth recriwtio staff Gwaith Ieuenctid addas, a'r effaith mae materion recriwtio wedi'i gael ar sefydliadau a'u gallu i weithio gyda phobl ifanc.

Ffigur 63, cafodd y rhesymeg hon ei droi o chwith oherwydd geiriad y cwestiwn.

Ymatebion rhif - Cafodd uchafswm yr holl ymatebion eu cynnwys.

Testun agored - Cyfunwyd yr holl destun mewn un ymateb.

O'r 48 sefydliad a roddodd ymatebion rhannol, cafodd 39 eu dileu:

- Cafodd un ei ddileu gan nad oedd digon o wybodaeth wedi'i darparu ac roedd y sefydliad a gyflwynodd yr ymateb yn ddi-enw.
- Cafodd 38 ymateb eu dileu oherwydd bod y sefydliadau wedi darparu ail ymateb a oedd yn fwy cyflawn.

Ar ôl glanhau'r data, defnyddiwyd 49 o ymatebion sefydliadau i ddadansoddi - 40 ymateb cyflawn a 9 ymateb rhannol.

Tabl 1: Nifer yr ymatebwyr yn ôl math o ymateb

	Cyflawn	Rhannol	Cyfanswm
Cyn glanhau	44	48	92
Dilëwyd wrth lanhau	0	39	39
Dilëwyd oherwydd cyfuno	4	0	4

Arolwg unigolion

Cyflwynwyd 501 o ymatebion i'r ymarfer casglu unigolion, a oedd yn cynnwys 426 ymateb cyflawn a 75 ymateb rhannol.

Ni ddilëwyd unrhyw ymatebion cyflawn yn ystod y broses glanhau data.

Ar gyfer yr ymarfer casglu unigolion, dim ond un maen prawf oedd yn rhaid ei gyflawni er mwyn i ymateb rhannol gael ei gadw. Roedd yn rhaid i'r ymatebwr gwblhau cwestiwn 4 o leiaf (Ydych chi wedi cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg (CGA) - Ffigur 3). Dewiswyd y cwestiwn hwn ar ôl penderfynu mai hwn oedd y cwestiwn cyntaf a oedd yn darparu gwybodaeth am yr unigolyn sy'n ymateb, yn hytrach na'r sefydliad y maent yn gweithio iddo. Nid oedd saith ymateb yn ateb y maen prawf hwn ac fe'u dilëwyd.

Ar ôl glanhau'r data, defnyddiwyd 494 o ymatebion unigolion i ddadansoddi - 426 ymateb cyflawn a 68 ymateb rhannol. Mae hyn wedi'i grynhoi yn nhabl 2.

Tabl 2: Nifer yr ymatebwyr yn ôl math o ymateb

	Cyflawn	Rhannol	Cyfanswm
Cyn glanhau	426	75	501
Dilëwyd wrth lanhau	0	7	7
Cyfanswm	426	68	494

Dadansoddi a dehongli Gwaith Ieuencid


Fel y nodwyd uchod, cafodd yr arolygon a gynhaliwyd eu rhannu'n ddau, er mwyn monitro anghenion yr ymarferwyr ac anghenion y sefydliad, gan y cydnabyddir yn eang y gall lefel yr angen amrywio. Fel rhan o adroddiad yr arolwg hwn, bydd dadansoddiad ar sail Gwaith Ieuencid yn cael ei ddehongli a'i amlygu mewn llythrennau italig sy'n cael ei adnabod ar lafar yn Saesneg fel **Youth Work-ification**. Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio'r ystadegau a ddarparwyd gan Data Cymru a ddangosir ar y siartiau a'r tablau. Mae gwaith dadansoddi pellach wedi'i wneud gan weithwyr proffesiynol Gwaith Ieuencid gyda chefnogaeth ETS.

Er bod hwn yn ymarfer casglu data, bydd yr adroddiad hwn yn llywio dyluniad, darpariaeth a gweithrediad y rhaglen hyfforddiant genedlaethol a dysgu proffesiynol i ymarferwyr Gwaith Ieuencid, gan gynnwys cymwysterau Gwaith Ieuencid. Mae'r wybodaeth hon yn ein helpu i ddeall anghenion y sector o ran hyfforddiant ac yn ein helpu i nodi pa anghenion i fynd i'r afael â nhw er mwyn cefnogi datblygiad y gweithlu.

Canlyniadau'r arolwg unigol

Amdanoch chi


Ffigur 1: Ym mha sector ydy'ch sefydliad?



Nifer yr ymatebwyr: 494

Mae atebion 'Arall' yn cynnwys Gwaith Ieuenctid ac Addysg.

Ffigur 2: O fewn pa ardal(oedd) cyngor lleol ydy'ch sefydliad yn gweithio?




Nifer yr ymatebwyr: 494

Cafodd ymatebwyr yr opsiynau i ddewis pob un a oedd yn berthnasol iddynt. Felly, mae'n bosibl na fydd cyfansymiau rhesi'n symio i gyfanswm yr ymatebwyr. Mae canrannau wedi'u cyfrifo gan ddefnyddio cyfanswm y rhes fel y rhifiadur a nifer yr ymatebwyr fel yr enwadur.


Respondents were given the option to select all applicable choices. Therefore, row totals may not sum to the total number of respondents. Percentages have been calculated using the row total as the numerator and the number of respondents as the denominator.

Ffigur 3: Ydych chi wedi cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg?



Nifer yr ymatebwyr: 494

Ffigur 4: Beth yw'ch rol(au) cofrestredig gyda Chyngor y Gweithlu Addysg?




Nifer yr ymatebwr: 356

Mae'r data yn ffigur 4 yn awgrymu bod yr ymatebwr yn cofrestru yn bennaf naill ai fel Gweithiwr Ieuencid neu Weithiwr Cymorth Ieuencid, ond mae'n bosibl bod gan rai statws cofrestru deol. Yng Nghymru, mae'n ofynnol yn unol â'r gyfraith i Weithwyr Ieuencid sy'n ymarfer neu Weithwyr Cymorth Ieuencid sydd â chymhwyster a gydnabyddir gan y Cydgyngor Cenedlaethol, neu sydd mewn hyfforddiant, gofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg.


Rhodddwyd opsiynau i ymatebwr ddewis yr holl ddewisiadau a oedd yn berthnasol iddyn nhw. Gan hynny, efallai nad yw cyfansymiau'r rhesi'n cyfateb i gyfanswm yr ymatebwr. Mae canrannau wedi'u cyfrifo gan ddefnyddio cyfansymiau'r rhesi fel rhifiadur a nifer yr ymatebwr fel enwadur.

Ffigur 5: Beth yw'ch math chi o rôl?



Rhodddwyd opsiynau i ymatebwyr ddewis yr holl ddewisiadau a oedd yn berthnasol iddyn nhw. Gan hynny, efallai nad yw cyfansymiau'r colofnau'n cyfateb i gyfanswm yr ymatebwyr. Mae canrannau wedi'u cyfrifo gan ddefnyddio cyfansymiau'r colofnau fel rhifiadur a nifer yr ymatebwyr fel enwadur.


Ffigur 6: Beth yw'ch oriau gweithio dan eich contract?



Nifer yr ymatebwyr: 478

Mae atebion 'Arall' yn cynnwys "Gwirfoddolwr" a "Hunan-gyflogedig".


Ffigur 7: Pa fath o Waith Ieuenctid ydych chi'n ei ddarparu?



Nifer yr ymatebwyr: 478


Mae atebion Arall yn cynnwys Cymorth digartrefedd, Clybiau ieuencid / clybiau gwyliau ysgol / clybiau chwaraeon a chymorth 16+.

Cafodd ymatebwyr yr opsiynau i ddewis pob un a oedd yn berthnasol iddynt. Felly, mae'n bosibl na fydd cyfansymiau rhesi'n symio i gyfanswm yr ymatebwyr. Mae canrannau wedi'u cyfrifo gan ddefnyddio cyfanswm y rhes fel y rhifiadur a nifer yr ymatebwyr fel yr enwadur.



Lefelau cymwysterau / hyfforddiant Gwaith Ieuencid

Ffigur 8: Dewiswch y cymhwyster proffesiynol gwaith ieuentid uchaf sydd gennych.




Nifer yr ymatebwyr: 476

Mae ymatebion 'Eraill' yn cynnwys Lefel 2 (Anhysbys), Lefel 2 (Gwaith Ieuentid) cyfredol a Lefel 7 (TAR).

Mae'r data uchod yn ffigur 8 yn awgrymu bod angen adnoddau ychwanegol i gefnogi mwy o ymarferwyr i gyflawni'r safon ofynnol sef Tystysgrif Lefel 3 mewn Ymarfer Gwaith Ieuentid erbyn mis Mai 2025, er mwyn cyflawni diwedd y cyfnod gras / terfyn amser cofrestru ar gyfer Gweithwyr Cymorth Ieuentid. Fel rhan o'r rhaglen hyfforddiant genedlaethol, rhoddir ystyriaeth i gefnogaeth i bontio'r bwlch cymwysterau erbyn mis Mai 2025, gan ddefnyddio technegau sy'n hygyrch i ddysgwyr.

Ffigur 9: Ydych chi erioed wedi derbyn hyfforddiant yn y meysydd canlynol?


Mae'r data isod yn ffigur 9 yn ymwneud â hyfforddiant sy'n cael ei ystyried yn hyfforddiant diogelwch sylfaenol, a fydd yn galluogi ymarferwyr i weithredu'n ddiogel.



Nifer yr ymatebwyr: 464


Er ei fod yn galonogol bod bron i 92% o ymatebwyr wedi derbyn hyfforddiant ffurfiol mewn diogelu, wrth ystyried y data crai ymhellach awgrymir bod mwyafrif y rheiny nad ydynt wedi'u hyfforddi o'r sector gwirfoddol. Yn ogystal, mae ffigur 9 yn dangos bod cymorth cyntaf yn faes i'w ddatblygu ar gyfer ymarferwyr sydd ei angen ar gyfer eu rôl. Mae'n bosibl fodd bynnag na fydd angen dyrannu cyllid ar gyfer hyn ac y bydd cyfeirio at gyfleoedd presennol yn fwy effeithiol/effeithlon er mwyn cael y gweithlu'n gymwys.

Ffigur 10: Ydych chi'n Arweinydd / Swyddog Diogelu dynodedig?



Nifer yr ymatebwyr: 462

Ffigur 11: Pa mor hyderus ydych chi wrth ymdrin â materion diogelu?




Nifer yr ymatebwyr: 462

Mae'r ffigur uchod yn dangos bod nifer o ymatebwyr yn hyderus wrth ymdrin â phryderon diogelu, er hynny mae cyfran sylweddol o ymatebwyr yn dal i fod â diffyg hyder o hyd. Mae hyn er gwaethaf y ffaith bod nifer o ymatebwyr yn gymwys neu wedi cael hyfforddiant ffurfiol mewn diogelu. Mae hyn yn awgrymu bod yr hyfforddiant diogelu a ddarperir naill ai'n rhy gyffredinol a heb fod yn ddigon penodol i'r lleoliad Gwaith leuenctid, neu nad yw cyfranogwyr wedi gorfod ymateb i bryder neu ddigwyddiad diogelu. Gan hynny, dylid datblygu ystyriaeth ar gyfer hyfforddiant Diogelu cyd-destunol ar gyfer Gweithwyr leuenctid a Gweithwyr Cymorth leuenctid, gan ddefnyddio enghreifftiau penodol ac astudiaethau achos o ddarpariaethau Gwaith leuenctid, a fydd yn ategu hyfforddiant am ddim sydd eisoes yn cael ei ddarparu.

Ffigur 12: Pa hyfforddiant arweinyddiaeth a rheoli a restrir isod sy'n rhan o'ch swydd?


Mae Arweinyddiaeth a Rheoli yn y sector Gwaith leuenctid yn allweddol i sicrhau bod sefydliadau Gwaith leuenctid yn parhau i redeg yn effeithiol i gefnogi pobl ifanc. Mae'r siart isod yn dangos yn glir nad yw dros 70% o ymatebwyr wedi cael hyfforddiant Arweinyddiaeth a Rheoli. Yng Nghymru, mae hyfforddiant lefel 7 mewn Arweinyddiaeth a Rheoli yn cael ei gynnig i weithwyr proffesiynol, er bod angen llwybr cynnydd o hyfforddiant ar gyfer arweinyddiaeth ar bob lefel.



Nifer yr ymatebwyr: 451

Gan adeiladu ar y gwaith peilot sydd wedi cael ei wneud, caiff hyfforddiant arweinyddiaeth a rheoli ei ystyried fel rhan o'r rhaglen hyfforddiant, i ddarparu ar gyfer arweinyddiaeth sy'n gweithio fel rheolwyr ar hyn o bryd neu sy'n dymuno arwain mewn modd mwy strategol. Yn ogystal, dylai hyfforddiant ddarparu ar gyfer arweinyddiaeth weithredol, fel rheoli timau bach o staff mewn darpariaeth ieuenctid.

Ffigur 13: Wrth feddwl am ddatblygu'ch gyrfa, ydych chi'n dyheu i wneud cynnydd a gwneud un o'r swyddi canlynol?




Nifer yr ymatebwyr: 447

Roedd ymatebion 'Eraill' yn cynnwys y rheiny a oedd yn ansicr a oeddent am symud ymlaen yn eu gyrfa, swyddi mewn ymgynghoriaeth, swyddi cysylltiedig â pholisi, dechrau busnes, dod yn weithiwr llawn amser, swyddi y tu allan i waith ieuenctid, a rhai a oedd yn ymddeol yn fuan.

Rhodddwyd opsiynau i ymatebwyr ddewis yr holl ddewisiadau a oedd yn berthnasol iddyn nhw. Gan hynny, efallai nad yw cyfansymiau'r rhesi'n cyfateb i gyfanswm yr ymatebwyr. Mae canrannau wedi'u cyfrifo gan ddefnyddio cyfansymiau'r rhesi fel rhifiadur a nifer yr ymatebwyr fel enwadur.


Mae'r data uchod yn ymwneud â chanlyniadau'r ffigyrau arweinyddiaeth a rheoli uchod (ffigur12). Mae dros hanner yr ymatebwyr yn dyheu i wneud cynnydd yn eu sefydliad ond dywedodd dros 70% nad oeddent wedi cael hyfforddiant arweinyddiaeth a rheoli. Er ei bod yn galonogol bod bron i hanner yr ymatebwyr yn hapus yn eu swydd, mae'r arolwg hwn hefyd yn dangos nad yw hynny'n wir i dros hanner. Mae'r ffigur uchod yn cefnogi'r ffigur blaenorol a'r argymhelliad y dylid datblygu hyfforddiant arweinyddiaeth a rheoli ymhellach yng Nghymru.

Ffigur 14: A oes unrhyw rwystrau sy'n eich atal rhag gwneud cynnydd yn eich gyrfa?



Nifer yr ymatebwyr: 447

Ffigur 15: Beth yw'r rhwystrau sy'n eich atal rhag gwneud cynnydd yn eich gyrfya?



Nifer yr ymatebwyr: 161

Mae ymatebion 'Eraill' yn cynnwys ymrwymiadau teuluol, beichiogrwydd / salwch, pellter, iechyd meddwl, anawsterau dysgu, sgiliau iaith Gymraeg a chamwahaniaethu.

Rhodddwyd opsiynau i ymatebwyr ddewis yr holl ddewisiadau a oedd yn berthnasol iddyn nhw. Gan hynny, efallai nad yw cyfansymiau'r rhesi'n cyfateb i gyfanswm yr ymatebwyr. Mae canrannau wedi'u cyfrifo gan ddefnyddio cyfansymiau'r rhesi fel rhifiadur a nifer yr ymatebwyr fel enwadur.


Roedd y ddau siart blaenorol (ffigyrau 14 a 15) yn dangos bod 51% wedi nodi bod naill ai rhwystr i gynnydd neu nad oeddent yn gwybod beth fyddai hynny. Nododd Ffigur 15 ymhellach mai diffyg cyllid ar gyfer hyfforddiant a chynnydd, ynghyd ag ychydig o gyfleoedd ar gyfer cynnydd (64.6%) oedd yr heriau mwyaf. Nododd 23% fod diffyg amser i ymgymryd â hyfforddiant, a bydd hyn yn cael ei ystyried ymhellach wrth i'r cynllun hyfforddi gael ei ddatblygu i sicrhau bod hyfforddiant ar gael mewn amrywiaeth o ffyrdd gan gynnwys yn ddigidol er mwyn cefnogi ymgysylltiad.



Cymwysterau sy'n cefnogi darpariaeth Gwaith leuenctid

Ffigur 16: Wrth feddwl am eich cymwysterau a'ch hyfforddiant yn y meysydd canlynol, dewiswch pa ddatganiad sy'n berthnasol i chi

Mae ffigur 16 yn cyfeirio at gymwysterau nad ydynt yn benodol i Waith leuenctid ond sy'n cynorthwyo i'w ddarparu wrth weithio gyda phobl ifanc a/neu gyda datblygu ymarferwyr.



Nifer yr ymatebwyr: 444


Mae'r siart uchod yn amlygu'r angen am fwy o isadeiledd o amgylch y ddarpariaeth gyfan o gymwysterau galwedigaethol, boed hynny i bobl ifanc neu staff gwaith ieuencid. Mae'r data yn awgrymu bod diffyg sylweddol o ran ymarferwyr sydd â chymwysterau gofynnol i allu cynnig cyrsiau cwbl achrededig. Mae Ffigur 7 yn dangos bod hyn yn berthnasol i nifer o ymarferwyr sy'n gweithio mewn ysgolion neu sy'n cynnig addysg amgen i bobl ifanc hefyd. Gan hynny, argymhellir bod ymdrech ar y cyd yn cael ei gwneud i sicrhau bod y cymwysterau uchod yn cael eu cynyddu yn y sector, fel bod ymarferwyr yn gallu addysgu / tiwtora, asesu a sicrhau ansawdd cymwysterau yn fewnol yn effeithiol. Yn ogystal, yn ddiweddarach yn yr adroddiad, mae ffigur 43 yn nodi angen sefydliadol am gymwysterau sy'n cefnogi darpariaeth cymwysterau galwedigaethol ar sail credydau, a fyddai, er enghraifft, yn cefnogi darparu cymwysterau Gwaith leuenctid, yn enwedig Tystysgrif Lefel 3 mewn Ymarfer Gwaith leuenctid.

Mae nifer o rwystrau i hyfforddiant a dysgu proffesiynol, fel yr amlinellir isod felly mae cael aseswyr cymwys ychwanegol a'r rheiny sy'n sicrhau ansawdd cymwysterau yn fewnol yn galluogi i hyfforddiant ac asesu fynd y tu hwnt i ddulliau traddodiadol fel llyfrau gwaith ysgrifenedig a bydd modd iddynt fod yn fwy hygyrch a hyblyg, gyda mwy o hyfforddwyr sy'n gallu asesu a sicrhau ansawdd cymwysterau.

Dysgu proffesiynol


Mae'r ffigyrau canlynol o 17 - 21 yn ymwneud â dysgu proffesiynol ar themâu sy'n effeithio ar bobl ifanc ledled Cymru. Gofynnwyd i ymatebwyr ddewis eu lefelau hyder ym mhob maes pwnc, gyda'r bwriad o lywio'r angen am hyfforddiant. Yn ogystal, mae'r holl bynciau isod yn unedau opsiynol yn y Dystysgrif Lefel 3 mewn Ymarfer Gwaith leuenctid a gall gyfrif tuag at y dystysgrif a chynnig dysgu proffesiynol.

Ffigur 17: Wrth feddwl am eich rôl a sut mae'n ymwneud â'r meysydd canlynol, dewiswch yr opsiwn sy'n disgrifio lefel eich hyder orau.



Nifer yr ymatebwyr: 434


Ffigur 18: Wrth feddwl am eich rôl a sut mae'n ymwneud â'r meysydd canlynol, dewiswch yr opsiwn sy'n disgrifio lefel eich hyder orau.



Nifer yr ymatebwyr: 434

Mae Ffigur 18 yn tynnu sylw at bwynt pwysig a gwerthfawr, sef bod rhai lleoliadau Gwaith Ieuencid o bosibl angen cael gwell dealltwriaeth o anghenion pobl ifanc yn eu cymunedau, yn enwedig gan fod materion fel trosedd cyllyll a chamfanteisio wedi cynyddu'n genedlaethol, ond gall hyn fod yn fwy cyffredin mewn rhai ardaloedd. Gan hynny, dylid rhoi ystyriaeth i flaenoriaethu hyfforddiant sy'n gysylltiedig â'r materion hyn, yn enwedig sicrhau bod hyfforddiant yn cyd-fynd ag ymateb Gwaith Ieuencid wrth ymdrin â'r materion hyn.


Ffigur 19: Wrth feddwl am eich rôl a sut mae'n ymwneud â'r meysydd canlynol, dewiswch yr opsiwn sy'n disgrifio lefel eich hyder orau.



Nifer yr ymatebwyr: 434


Ffigur 20: Wrth feddwl am eich rôl a sut mae'n ymwneud â'r meysydd canlynol, dewiswch yr opsiwn sy'n disgrifio lefel eich hyder orau.

Mae'r siart isod yn dangos mai cefnogi pobl ifanc sy'n ffoaduriaid neu'n ceisio lloches yw'r angen dysgu proffesiynol mwyaf a ddatgenir wrth i 22.3% o ymatebwyr deimlo eu bod naill ai'n anhyderus neu'n eithaf anhyderus.



Nifer yr ymatebwyr: 434


Ffigur 21: Wrth feddwl am eich rôl a sut mae'n ymwneud â'r meysydd canlynol, dewiswch yr opsiwn sy'n disgrifio lefel eich hyder orau.



Nifer yr ymatebwyr: 434

Yn seiliedig ar y canlyniadau uchod, mae'r prif bynciau yr oedd yr ymatebwyr yn teimlo'n anhyderus neu'n ddi-hid yn eu cylch wedi'u nodi yn ffigurau 18 ac 20. Er mwyn blaenoriaethu hyfforddiant yn effeithiol, mae is-grŵp Cyfranogi Gweithredu Datblygu'r Gweithlu wedi cytuno, os yw 15% o ymatebwyr yn nodi eu bod naill ai'n anhyderus neu'n eithaf anhyderus, y caiff ei ystyried fel angen hyfforddi a'i weithredu fel rhan o'r Rhaglen Hyfforddiant Genedlaethol.

Ffigur 22: Ydych chi'n teimlo fel ymarferydd Gwaith Ieuencid bod gennych unrhyw anghenion eraill o ran hyfforddiant nad ydynt wedi'u cynnwys yr arolwg hwn?



Nifer yr ymatebwyr: 433

Gofynnwyd cwestiwn ychwanegol i'r ymatebwyr hynny a ddewisodd "Ydw", fel y gwelir yn y testun agored isod.

Testun agored - Nodwch pa hyfforddiant arall sydd ei angen arnoch fel Ymarferydd Gwaith Ieuencid isod.


Dyweddodd nifer o atebwyr y cwestiwn hwn bod angen hyfforddiant diogelu o ryw fath arnynt, yn enwedig o ran camdriniaeth, camfanteisio a cham-drin cyffuriau. Dywedodd nifer hefyd bod angen hyfforddiant arnynt mewn cefnogi grwpiau penodol o bobl ifanc fel pobl LHDTC+, ceiswyr lloches a ffoaduriaid, pobl ag anableddau a phobl ifanc niwroamrywiol. Roedd pynciau newydd eraill yn cynnwys dymuniad i gael hyfforddiant digidol, er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r ffordd mae pobl ifanc yn defnyddio'r rhyngwrwyd a datblygu adnoddau creadigol, a hyfforddiant i gyflwyno gweithgareddau awyr agored ar gyfer pobl ifanc fel beicio mynydd a Gwobr Dug Caeredin. Soniwyd hefyd am hyfforddiant rheoli a chwrsela, cymwysterau gwaith ieuencid swyddogol, hyfforddiant cymorth cyntaf gan gynnwys cymorth cyntaf brys ac iechyd meddwl, a hyfforddiant mwy cyffredinol sy'n caniatáu i weithwyr wneud cynnydd.

Nifer yr ymatebwyr: 81

Mae'r ymatebion testun agored uchod yn dangos bod angen rhoi ystyriaeth i gefnogi'r sector mewn camdriniaeth (amlygir uchod yn enwedig o ran camfanteisio), camdefnyddio sylweddau, cefnogi pobl ifanc sy'n LHDTC, pobl ifanc ag anableddau a phobl ifanc niwroamrywiol fel rhan o'r cynnig dysgu proffesiynol. Hefyd, mae Gwaith Ieuencid digidol wedi'i amlygu fel maes blaenoriaeth, y cyfeirir ato yn y testun agored uchod.

Lefelau cymwysterau / hyfforddiant Gwaith Ieuencid

Ffigur 23: Dewiswch y cymhwyster proffesiynol gwaith leuenctid uchaf sydd gennych.




Nifer yr ymatebwyr: 476

Mae ymatebion 'Eraill' yn cynnwys Lefel 2 (Anhysbys), Lefel 2 (Gwaith leuenctid) cyfredol a Lefel 7 (TAR).

Mae'r data uchod yn ffigur 8 yn awgrymu bod angen adnoddau ychwanegol i gefnogi mwy o ymarferwyr i gyflawni'r safon ofynnol sef Tystysgrif Lefel 3 mewn Ymarfer Gwaith leuenctid erbyn mis Mai 2025, er mwyn cyflawni diwedd y cyfnod gras / terfyn amser cofrestru ar gyfer Gweithwyr Cymorth leuenctid. Fel rhan o'r rhaglen hyfforddiant genedlaethol, rhoddir ystyriaeth i gefnogaeth i bontio'r bwloch cymwysterau erbyn mis Mai 2025, gan ddefnyddio technegau sy'n hygyrch i ddysgwyr.

Ffigur 24: Ydych chi erioed wedi derbyn hyfforddiant yn y meysydd canlynol?


Mae'r data isod yn ffigur 9 yn ymwneud â hyfforddiant sy'n cael ei ystyried yn hyfforddiant diogelwch sylfaenol, a fydd yn galluogi ymarferwyr i weithredu'n ddiogel.



Nifer yr ymatebwyr: 464


Er ei fod yn galonogol bod bron i 92% o ymatebwyr wedi derbyn hyfforddiant ffurfiol mewn diogelu, wrth ystyried y data crai ymhellach awgrymir bod mwyafrif y rheiny nad ydynt wedi'u hyfforddi o'r sector gwirfoddol. Yn ogystal, mae ffigur 9 yn dangos bod cymorth cyntaf yn faes i'w ddatblygu ar gyfer ymarferwyr sydd ei angen ar gyfer eu rôl. Mae'n bosibl fodd bynnag na fydd angen dyrannu cyllid ar gyfer hyn ac y bydd cyfeirio at gyfleoedd presennol yn fwy effeithiol/effeithlon er mwyn cael y gweithlu'n gymwys.

Ffigur 25: Ai chi yw'r Arweinydd / Swyddog Diogelu dynodedig?



Nifer yr ymatebwyr: 462

Ffigur 26: Pa mor hyderus ydych chi'n teimlo wrth ddelio â materion diogelu?




Nifer yr ymatebwyr: 462

Mae'r ffigur uchod yn dangos bod nifer o ymatebwyr yn hyderus wrth ymdrin â phryderon diogelu, er hynny mae cyfran sylweddol o ymatebwyr yn dal i fod â diffyg hyder o hyd. Mae hyn er gwaethaf y ffaith bod nifer o ymatebwyr yn gymwys neu wedi cael hyfforddiant ffurfiol mewn diogelu. Mae hyn yn awgrymu bod yr hyfforddiant diogelu a ddarperir naill ai'n rhy gyffredinol a heb fod yn ddigon penodol i'r lleoliad Gwaith leuenctid, neu nad yw cyfranogwyr wedi gorfod ymateb i bryder neu ddigwyddiad diogelu. Gan hynny, dylid datblygu ystyriaeth ar gyfer hyfforddiant Diogelu cyd-destunol ar gyfer Gweithwyr leuenctid a Gweithwyr Cymorth leuenctid, gan ddefnyddio enghreifftiau penodol ac astudiaethau achos o ddarpariaethau Gwaith leuenctid, a fydd yn ategu hyfforddiant am ddim sydd eisoes yn cael ei ddarparu.

Ffigur 27: Pa hyfforddiant arweinyddiaeth a rheoli a restrir isod sy'n rhan o'ch swydd?


Mae Arweinyddiaeth a Rheoli yn y sector Gwaith Ieuentid yn allweddol i sicrhau bod sefydliadau Gwaith Ieuentid yn parhau i redeg yn effeithiol i gefnogi pobl ifanc. Mae'r siart isod yn dangos yn glir nad yw dros 70% o ymatebwyr wedi cael hyfforddiant Arweinyddiaeth a Rheoli. Yng Nghymru, mae hyfforddiant lefel 7 mewn Arweinyddiaeth a Rheoli yn cael ei gynnig i weithwyr proffesiynol, er bod angen llwybr cynnydd o hyfforddiant ar gyfer arweinyddiaeth ar bob lefel.



Nifer yr ymatebwyr: 451

Gan adeiladu ar y gwaith peilot sydd wedi cael ei wneud, caiff hyfforddiant arweinyddiaeth a rheoli ei ystyried fel rhan o'r rhaglen hyfforddiant, i ddarparu ar gyfer arweinyddiaeth sy'n gweithio fel rheolwyr ar hyn o bryd neu sy'n dymuno arwain mewn modd mwy strategol. Yn ogystal, dylai hyfforddiant ddarparu ar gyfer arweinyddiaeth weithredol, fel rheoli timau bach o staff mewn darpariaeth ieuentid.

Ffigur 28: Wrth feddwl am ddatblygu'ch gyrfa, ydych chi'n dyheu i wneud cynnydd a gwneud un o'r swyddi canlynol?




Nifer yr ymatebwyr: 447

Roedd ymatebion 'Eraill' yn cynnwys y rheiny a oedd yn ansicr a oeddent am symud ymlaen yn eu gyrfa, swyddi mewn ymgynghoriaeth, swyddi cysylltiedig â pholisi, dechrau busnes, dod yn weithiwr llawn amser, swyddi y tu allan i waith ieuenctid, a rhai a oedd yn ymddeol yn fuan.

Rhodddwyd opsiynau i ymatebwyr ddewis yr holl ddewisiadau a oedd yn berthnasol iddyn nhw. Gan hynny, efallai nad yw cyfansymiau'r rhesi'n cyfateb i gyfanswm yr ymatebwyr. Mae canrannau wedi'u cyfrifo gan ddefnyddio cyfansymiau'r rhesi fel rhifiadur a nifer yr ymatebwyr fel enwadur.


Mae'r data uchod yn ymwneud â chanlyniadau'r ffigyrau arweinyddiaeth a rheoli uchod (ffigur12). Mae dros hanner yr ymatebwyr yn dyheu i wneud cynnydd yn eu sefydliad ond dywedodd dros 70% nad oeddent wedi cael hyfforddiant arweinyddiaeth a rheoli. Er ei bod yn galonogol bod bron i hanner yr ymatebwyr yn hapus yn eu swydd, mae'r arolwg hwn hefyd yn dangos nad yw hynny'n wir i dros hanner. Mae'r ffigur uchod yn cefnogi'r ffigur blaenorol a'r argymhelliad y dylid datblygu hyfforddiant arweinyddiaeth a rheoli ymhellach yng Nghymru.

Ffigur 29: A oes unrhyw rwystrau sy'n eich atal rhag gwneud cynnydd yn eich gyrfa?



Nifer yr ymatebwyr: 447

Ffigur 30: Beth yw'r rhwystrau sy'n eich atal rhag gwneud cynnydd yn eich gyrfa?



Nifer yr ymatebwyr: 161

Mae ymatebion 'Eraill' yn cynnwys ymrwymiadau teuluol, beichiogrwydd / salwch, pellter, iechyd meddwl, anawsterau dysgu, sgiliau iaith Gymraeg a chamwahaniaethu.


Rhodddwyd opsiynau i ymatebwyr ddewis yr holl ddewisiadau a oedd yn berthnasol iddyn nhw. Gan hynny, efallai nad yw cyfansymiau'r rhesi'n cyfateb i gyfanswm yr ymatebwyr. Mae canrannau wedi'u cyfrifo gan ddefnyddio cyfansymiau'r rhesi fel rhifiadur a nifer yr ymatebwyr fel enwadur.

Roedd y ddau siart blaenorol (ffigyrau 14 a 15) yn dangos bod 51% wedi nodi bod naill ai rhwystr i gynnydd neu nad oeddent yn gwybod beth fyddai hynny. Nododd Ffigur 15 ymhellach mai diffyg cyllid ar gyfer hyfforddiant a chynnydd, ynghyd ag ychydig o gyfleoedd ar gyfer cynnydd (64.6%) oedd yr heriau mwyaf. Nododd 23% fod diffyg amser i ymgymryd â hyfforddiant, a bydd hyn yn cael ei ystyried ymhellach wrth i'r cynllun hyfforddi gael ei ddatblygu i sicrhau bod hyfforddiant ar gael mewn amrywiaeth o ffyrdd gan gynnwys yn ddigidol er mwyn cefnogi ymgysylltiad.

Cymwysterau sy'n cefnogi darpariaeth Gwaith Ieuencid

Ffigur 31: Wrth feddwl am eich cymwysterau a'ch hyfforddiant yn y meysydd canlynol, dewiswch pa ddatganiad sy'n berthnasol i chi

Mae ffigur 16 yn cyfeirio at gymwysterau nad ydynt yn benodol i Waith Ieuencid ond sy'n cynorthwyo i'w ddarparu wrth weithio gyda phobl ifanc a/neu gyda datblygu ymarferwyr.



Nifer yr ymatebwyr: 444


Mae'r siart uchod yn amlygu'r angen am fwy o isadeiledd o amgylch y ddarpariaeth gyfan o gymwysterau galwedigaethol, boed hynny i bobl ifanc neu staff gwaith ieuencid. Mae'r data yn awgrymu bod diffyg sylweddol o ran ymarferwyr sydd â chymwysterau gofynnol i allu cynnig cyrsiau cwbl achrededig. Mae Ffigur 7 yn dangos bod hyn yn berthnasol i nifer o ymarferwyr sy'n gweithio mewn ysgolion neu sy'n cynnig addysg amgen i bobl ifanc hefyd. Gan hynny, argymhellir bod ymdrech ar y cyd yn cael ei gwneud i sicrhau bod y cymwysterau uchod yn cael eu cynyddu yn y sector, fel bod ymarferwyr yn gallu addysgu / tiwtora, asesu a sicrhau ansawdd cymwysterau yn fewnol yn effeithiol. Yn ogystal, yn ddiweddarach yn yr adroddiad, mae ffigur 43 yn nodi angen sefydliadol am gymwysterau sy'n cefnogi darpariaeth cymwysterau galwedigaethol ar sail credydau, a fyddai, er enghraifft, yn cefnogi darparu cymwysterau Gwaith Ieuencid, yn enwedig Tystysgrif Lefel 3 mewn Ymarfer Gwaith Ieuencid.

Mae nifer o rwystrau i hyfforddiant a dysgu proffesiynol, fel yr amlinellir isod felly mae cael aseswyr cymwys ychwanegol a'r rheiny sy'n sicrhau ansawdd cymwysterau yn fewnol yn galluogi i hyfforddiant ac asesu fynd y tu hwnt i ddulliau traddodiadol fel llyfrau gwaith ysgrifenedig a bydd modd iddynt fod yn fwy hygyrch a hyblyg, gyda mwy o hyfforddwyr sy'n gallu asesu a sicrhau ansawdd cymwysterau.

Dysgu proffesiynol


Mae'r ffigyrau canlynol o 17 - 21 yn ymwneud â dysgu proffesiynol ar themâu sy'n effeithio ar bobl ifanc ledled Cymru. Gofynnwyd i ymatebwyr ddeuw eu lefelau hyder ym mhob maes pwnc, gyda'r bwriad o lywio'r angen am hyfforddiant. Yn ogystal, mae'r holl bynciau isod yn unedau opsiynol yn y Dystysgrif Lefel 3 mewn Ymarfer Gwaith Ieuenctid a gall gyfrif tuag at y dystysgrif a chynnig dysgu proffesiynol.

Ffigur 32: Wrth feddwl am eich rôl a sut mae'n ymwneud â'r meysydd canlynol, dewiswch yr opsiwn sy'n disgrifio lefel eich hyder orau.



Nifer yr ymatebwyr: 434

Ffigur 33: Wrth feddwl am eich rôl a sut mae'n ymwneud â'r meysydd canlynol, dewiswch yr opsiwn sy'n disgrifio lefel eich hyder orau.




Nifer yr ymatebwyr: 434

Mae Ffigur 18 yn tynnu sylw at bwynt pwysig a gwerthfawr, sef bod rhai lleoliadau Gwaith Ieuenctid o bosibl angen cael gwell dealltwriaeth o anghenion pobl ifanc yn eu cymunedau, yn enwedig gan fod materion fel trosedd cyllyll a chamfanteisio wedi cynyddu'n genedlaethol, ond gall hyn fod yn fwy cyffredin mewn rhai

ardaloedd. Gan hynny, dylid rhoi ystyriaeth i flaenoriaethu hyfforddiant sy'n gysylltiedig â'r materion hyn, yn enwedig sicrhau bod hyfforddiant yn cyd-fynd ag ymateb

Number of respondents: 433


Ffigur 34: Wrth feddwl am eich rôl a sut mae'n ymwneud â'r meysydd canlynol, dewiswch yr opsiwn sy'n disgrifio lefel eich hyder orau.



Nifer yr ymatebwyr: 434


Ffigur 35: Wrth feddwl am eich rôl a sut mae'n ymwneud â'r meysydd canlynol, dewiswch yr opsiwn sy'n disgrifio lefel eich hyder orau.

Mae'r siart isod yn dangos mai cefnogi pobl ifanc sy'n ffoaduriaid neu'n ceisio lloches yw'r angen dysgu proffesiynol mwyaf a ddatgenir wrth i 22.3% o ymatebwyr deimlo eu bod naill ai'n anhyderus neu'n eithaf anhyderus.




Nifer yr ymatebwyr: 434

Ffigur 36: Wrth feddwl am eich rôl a sut mae'n ymwneud â'r meysydd canlynol, dewiswch yr opsiwn sy'n disgrifio lefel eich hyder orau.



Nifer yr ymatebwyr: 434

Ffigur 37: Ydych chi'n teimlo fel ymarferydd Gwaith Ieuenctid bod gennych unrhyw anghenion eraill o ran hyfforddiant nad ydynt wedi'u cynnwys yr arolwg hwn?



Nifer yr ymatebwyr: 433

Gofynnwyd cwestiwn ychwanegol i'r ymatebwyr hynny a ddewisodd "Ydw", fel y gwelir yn y testun agored isod.

Testun agored - Nodwch pa hyfforddiant arall sydd ei angen arnoch fel Ymarferydd Gwaith Ieuenctid isod.

Dyweddodd nifer o atebwyr y cwestiwn hwn bod angen hyfforddiant diogelu o ryw fath arnynt, yn enwedig o ran camdriniaeth, camfanteisio a cham-drin cyffuriau. Dywedodd nifer hefyd bod angen hyfforddiant arnynt mewn cefnogi grwpiau penodol o bobl ifanc fel pobl LHDTC+, ceiswyr lloches a ffoaduriaid, pobl ag anabledau a phobl ifanc niwroamrywiol. Roedd pynciau newydd eraill yn cynnwys dymuniad i gael hyfforddiant digidol, er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r ffordd mae pobl ifanc yn defnyddio'r rhyngrwyd a datblygu adnoddau creadigol, a hyfforddiant i gyflwyno gweithgareddau awyr agored ar gyfer pobl ifanc fel beicio mynydd a Gwobr Dug Caeredin. Soniwyd hefyd am hyfforddiant rheoli a chwrsela, cymwysterau gwaith ieuenctid swyddogol, hyfforddiant cymorth cyntaf gan gynnwys cymorth cyntaf brys ac iechyd meddwl, a hyfforddiant mwy cyffredinol sy'n caniatáu i weithwyr wneud cynnydd.


Nifer yr ymatebwyr: 81

Mae'r ymatebion testun agored uchod yn dangos bod angen rhoi ystyriaeth i gefnogi'r sector mewn camdriniaeth (amlygir uchod yn enwedig o ran camfanteisio), camddefnyddio sylweddau, cefnogi pobl ifanc sy'n LHDTC, pobl ifanc ag anabledau a phobl ifanc niwroamrywiol fel rhan o'r cynnig dysgu proffesiynol. Hefyd, mae Gwaith Ieuenctid digidol wedi'i amlygu fel maes blaenoriaeth, y cyfeirir ato yn y testun agored uchod.

Y Gymraeg


Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 (Cymraeg 2050), o ganlyniad bydd gan Weithwyr Ieuenctid rôl i'w chwarae er mwyn cynorthwyo Llywodraeth Cymru i gyflawni hyn.

Ffigur 38: Pa rai o'r canlynol sy'n disgrifio eich gallu i siarad Cymraeg?




Nifer yr ymatebwyr: 430

Ffigur 39: Pa rai o'r canlynol sy'n disgrifio eich gallu i ddarllen a deall Cymraeg?




Nifer yr ymatebwyr: 430

Ffigur 40: Pa rai o'r canlynol sy'n disgrifio eich gallu i ysgrifennu Cymraeg?



Nifer yr ymatebwyr: 430

Ffigur 41: Pa iaith ydych chi'n teimlo fwyaf cyfforddus yn ei defnyddio?




Nifer yr ymatebwyr: 430

Mae ymatebion 'Eraill' yn cynnwys Pwyleg, Ffrangeg, Tsieinëeg a Hwngareg

Rhodddwyd opsiynau i ymatebwyr ddewis yr holl ddewisiadau a oedd yn berthnasol iddyn nhw. Gan hynny, efallai nad yw cyfansymiau'r colofnau'n cyfateb i gyfanswm yr ymatebwyr. Mae canrannau wedi'u cyfrifo gan ddefnyddio cyfansymiau'r colofnau fel rhifiadur a nifer yr ymatebwyr fel enwadur.


Ffigur 42: Ydych chi'n darparu Gwaith leuenctid trwy gyfrwng y Gymraeg?



Nifer yr ymatebwyr: 430

Mae'r wybodaeth uchod ynglŷn â'r Gymraeg a darpariaeth ddwyieithog mewn Gwaith leuenctid yn amlygu mai niferoedd cymharol fach o Weithwyr leuenctid sy'n ystyried eu hunain yn siaradwyr Cymraeg rhugl. Dylid ystyried gwneud gwaith pellach o amgylch Gwaith leuenctid Cymraeg a dylai fod yn rhan o'r cynllun Datblygu'r Gweithlu ar gyfer y sector a hefyd cyfeirio Gweithwyr leuenctid i ddysgu Cymraeg, gan ddefnyddio dulliau presennol sydd am ddim, megis Dysgu Cymraeg ac annog Gweithwyr leuenctid sydd â galluoedd cyfyngedig i siarad Cymraeg i 'roi cynnig arni'


Ffigur 43: Pa mor hyderus ydych chi'n teimlo wrth hwyluso gweithgareddau a darpariaeth Gwaith leuenctid yn Gymraeg?



Nifer yr ymatebwyr: 430


Mae Ffigur 28 yn dangos bod angen cefnogaeth bellach i alluogi ymarferwyr i fagu hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg, gyda bron i 70% o ymatebwyr yn dweud nad oeddent yn teimlo'n hyderus yn hwyluso gweithgareddau yn Gymraeg, ac 14% yn dweud bod yn well ganddyn nhw siarad Cymraeg neu gymysgedd o Gymraeg a Saesneg.

Ffigur 44: Ar gyfartaledd, pa mor aml ydych chi'n cyflwyno sesiynau Gwaith leuenctid am Gymru e.e. y Gymraeg, diwylliant a hanes Cymru gyda phobl ifanc?



Nifer yr ymatebwyr: 430

Ffigur 45: A fyddai cefnogaeth bellach yn eich galluogi i hwyluso gweithgareddau a darpariaeth Gwaith leuenctid yn Gymraeg?




Nifer yr ymatebwyr: 430

Mae Ffigur 30 hefyd yn amlygu'r angen am gefnogaeth ychwanegol i alluogi ymarferwyr i fagu hyder i ddefnyddio'r Gymraeg wrth weithio gyda phobl ifanc. Er bod lefel y siaradwyr Cymraeg a'r rheiny sy'n hyderus wrth gyflwyno yn Gymraeg yn isel, nododd dros 50% y byddai cefnogaeth i wneud hyn yn gwneud gwahaniaeth o ran hwyluso gweithgareddau yn Gymraeg. Gan hynny, argymhellir y dylid rhoi cefnogaeth ychwanegol i ymarferwyr 'roi cynnig' ar ddefnyddio'r Gymraeg mewn amgylchedd anfeirniadol, gydag eraill sy'n dysgu neu sy'n gallu siarad Cymraeg ond nad ydynt yn defnyddio'r iaith yn aml.

Monitro Cydraddoldeb ac Amrywiaeth


Mae'r data isod yn peintio darlun demograffig o'r gweithlu ac a yw hyn yn gynrychioliadol o ddemograffeg y bobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn darpariaeth Gwaith Ieuenctid yng Nghymru. Dylid cynnal dadansoddiad pellach i ddeall y cymesuredd a'r gymhareb o ran ethnigrwydd, hil, rhyw a rhywedd Gweithwyr Ieuenctid a phobl ifanc a sut mae'n cymharu â'r cymunedau y maent yn gweithio ynddynt.

Ffigur 46: Beth yw eich rhyw?




Nifer yr ymatebwyr: 414

Ffigur 47: A yw'r rhywedd yr ydych chi'n uniaethu ag o yr un fath â'ch rhywedd pan gawsoch chi eich geni?




Nifer yr ymatebwyr: 416

Ffigur 48: Pa un o'r termau canlynol sy'n disgrifio eich cyfeiriadedd rhywiol chi orau?



Nifer yr ymatebwyr: 416

Ffigur 49: Beth yw eich grŵp ethnig?



Nifer yr ymatebwyr: 417




Sefydliadau

Yn ystod cyfnod yr arolwg hwn, cwblhaodd 20 o'r 22 Gwasanaeth Ieuenctid o fewn awdurdodau lleol yr arolwg ar ran eu sefydliad, a chwblhaodd 24 Sefydliad Ieuenctid gwirfoddol yr arolwg ar ran eu sefydliad. Y bwriad tu ôl i hyn yw deall y gwahaniaethau rhwng anghenion ymarferwyr unigol a'r sefydliadau.

Amdanoch Chi


Ffigur 50: Ym mha ardal(oedd) cyngor lleol mae'ch sefydliad yn gweithio?



Nifer y sefydliadau 49


Rhoddwyd opsiynau i ymatebwyr ddewis yr holl ddewisiadau a oedd yn berthnasol iddyn nhw. Gan hynny, efallai nad yw cyfansymiau'r rhesi'n cyfateb i gyfanswm y sefydliadau. Mae canrannau wedi'u cyfrifo gan ddefnyddio cyfansymiau'r rhesi fel rhifiadur a nifer y sefydliadau fel enwadur.

Ffigur 51: Faint o weithwyr Gwaith leuentid sydd yn eich sefydliad?



Nifer y sefydliadau: 49


Ffigur 52: Ym mha sector mae'ch sefydliad?



Nifer y sefydliadau: 49

Mae 'preifat', 'gwasanaethau mewn lifrai', ac 'eraill' wedi'u cyfuno mewn un categori 'Eraill' oherwydd bod niferoedd yr atebion mor fach.

Ffigur 53: A yw eich sefydliad yn darparu hyfforddiant i Weithwyr Ieuencid a sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl ifanc?




Nifer y sefydliadau: 49

Cyfleoedd hyfforddi

Pwrpas yr adran hon o'r arolwg yw deall sut mae hyfforddiant yn cael ei gyflwyno ledled Cymru a p'un a yw sefydliadau yn ei ddarparu'n fewnol neu'n mynd yn allanol, hefyd y rhesymau pam mae sefydliadau'n darparu'n fewnol neu gaffael hyfforddwyr allanol.

Ffigur 54: Yn ystod y 12 mis diwethaf, ydych chi wedi darparu hyfforddiant mewnol neu gaffael hyfforddiant allanol ar gyfer eich sefydliad?



Nifer y sefydliadau: 49


Rhodddwyd opsiynau i ymatebwyr ddewis yr holl ddewisiadau a oedd yn berthnasol iddyn nhw. Gan hynny, efallai nad yw cyfansymiau'r colofnau'n cyfateb i gyfanswm y sefydliadau. Mae canrannau wedi'u cyfrifo gan ddefnyddio cyfansymiau'r golofn fel rhifiadur a nifer y sefydliadau fel enwadur.

Mae Ffigur 39 yn dangos bod y mwyafrif o sefydliadau'n defnyddio cymysgedd o ddarpariaeth hyfforddiant allanol a mewnol, gydag ychydig dros 10% o sefydliadau yn gwneud y naill na'r llall, er eu bod yn ddibynol ar hyfforddiant allanol yn bennaf.

Gofynnwyd cwestiynau ychwanegol i'r ymatebwyr hynny a ddewisodd "Mae fy sefydliad wedi darparu hyfforddiant mewnol", a welir yn Ffigur 40 a'r testun agored isod. Gofynnwyd cwestiwn ychwanegol i'r ymatebwyr hynny a ddewisodd "Mae fy sefydliad wedi caffael hyfforddiant allanol", a welir yn Ffigur 41.

Mae'r ymatebion testun agored yn cefnogi'r anghenion hyfforddi a amlinellir yn yr arolwg unigolion, sy'n dechrau yn ffigur 17, gan awgrymu bod synergedd rhwng anghenion ymarferwyr unigol a sefydliadau.

Ffigur 55: Pam benderfynoch chi ddarparu hyfforddiant mewnol i'ch sefydliad?



Nifer y sefydliadau: 35

Rhoddwyd opsiynau i ymatebwyr ddewis yr holl ddewisiadau a oedd yn berthnasol iddyn nhw. Gan hynny, efallai nad yw cyfansymiau'r colofnau'n cyfateb i gyfanswm y sefydliadau. Mae canrannau wedi'u cyfrifo gan ddefnyddio cyfansymiau'r golofn fel rhifiadur a nifer y sefydliadau fel enwadur.

Dangosodd mwyafrif yr ymatebion 'Eraill' eu bod wedi penderfynu darparu hyfforddiant mewnol gan fod ganddyn nhw staff sy'n gymwys neu yn y sefyllfa orau i ddarparu'r hyfforddiant mwyaf perthnasol i'r sefydliad a allai fod o safon uwch neu fwy perthnasol na'r hyn y gallai darparwyr allanol ei gynnig. Roedd rhesymau eraill yn cynnwys hyfforddiant a ddarparwyd fel rhan o brosiect ehangach i grwpiau allanol a'r dymuniad i dderbyn hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg.


Mae Ffigur 40 yn awgrymu bod y mwyafrif o'r hyn a ddarperir yn fewnol yn benodol i'r sefydliad hwnnw er bod bron i hanner yr ymatebwyr wedi datgan nad oes ganddyn nhw gyllid ar gael i ddod â hyfforddwyr allanol i mewn i uwchsgilio eu gweithwyr.

Rhestrwch hyd at 5 o gyfleoedd hyfforddi yr ydych wedi'u darparu yn ystod y 12 mis diwethaf, sydd wedi cael yr effaith fwyaf (roedd y cwestiynau hyn yn destun agored)

Pan ofynnwyd iddyn nhw restru pump o gyfleoedd hyfforddi yn ystod y 12 mis diwethaf, yr ymateb mwyaf cyffredin oedd cymwysterau gwaith ieuentid arbenigol, megis tystysgrifau Lefel 2 a 3. Soniwyd am fathau amrywiol o hyfforddiant diogelu yn aml hefyd, megis ymwybyddiaeth a chefnogaeth mewn perthynas â thrawma, camdriniaeth a thrais. Roedd nifer o ymatebion yn cyfeirio at hyfforddiant mewn cefnogaeth iechyd meddwl a chymorth cyntaf iechyd meddwl, yn ogystal â chefnogaeth ag iechyd rhyw, dibyniaeth / cam-drin sylweddau a chwmsela mwy cyffredinol. Soniwyd hefyd am ymdrin a delio ag unigolion anodd mewn modd cadarnhaol, yn ogystal â rheoli, arweinyddiaeth a hyfforddiant digidol / cyfryngau cymdeithasol. Roedd nifer o ymatebion eraill yn sôn yn benodol am ymwybyddiaeth a chefnogaeth i unigolion ag anghenion penodol megis unigolion LHDTIC+, niwroamrywiol a chrefyddol.

Nifer y sefydliadau: 31

Ffigur 56: Pam benderfynoch chi gaffael hyfforddiant allanol i'ch sefydliad?



Nifer y sefydliadau: 29


Rhodddwyd opsiynau i ymatebwyr ddewis yr holl ddewisiadau a oedd yn berthnasol iddyn nhw. Gan hynny, efallai nad yw cyfansymiau'r colofnau'n cyfateb i gyfanswm y sefydliadau. Mae canrannau wedi'u cyfrifo gan ddefnyddio cyfansymiau'r golofn fel rhifiadur a nifer y sefydliadau fel enwadur.

Roedd ymatebion 'Eraill' yn cynnwys pwysigrwydd gweld safbwyntiau a syniadau newydd, staff yn cael eu hyfforddi gan hyfforddwyr allanol i uwchsgilio a chaniatáu i'r hyfforddiant hwnnw gael ei ddarparu'n fewnol yn y dyfodol a chynigion hyfforddiant am ddim.

Mae Ffigur 41 yn dangos bod angen mwy o gefnogaeth o amgylch yr isadeiledd wrth ddarparu hyfforddiant, megis cynnig cymwysterau.

Ffigur 57: Nodwch nifer y staff yn eich sefydliad, yn ôl eu cymhwyster Gwaith leuenctid uchaf.

Yn Ffigur 42 isod, gofynnwyd i arweinwyr sefydliadau archwilio eu hymarferwyr eu hunain, sydd naill ai'n gweithio'n uniongyrchol â phobl ifanc neu sy'n arweinwyr neu reolwyr ac yn seiliedig ar lefel eu cymhwyster Gwaith leuenctid.



Nifer y sefydliadau: 42


Roedd ymatebion 'Eraill' yn nodi staff â graddau Baglor mewn Addysg (BAdd Anrhydedd).

Mae'r data uchod yn nodi'n glir bod niferoedd sylweddol o bobl yn gweithio yn y sector gwaith Ieuencid sydd heb gymhwyster lefel 3 ac uwch, sef y lefel ofynnol er mwyn cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg fel gweithiwr cymorth Ieuencid o fis Mai 2025. Er nad yw'r rheiny sydd â chymwysterau lefel is i gyd yn bwriadu cynyddu eu cymhwyster am sawl rheswm megis natur ran amser iawn eu swydd, gwirfoddolwyr ydynt ac ati, mae gwir angen rhoi blaenoriaeth i gefnogi'r rheiny sy'n dymuno symud ymlaen i lefel 3. Caiff hyfforddiant hyd at lefel 3 ei flaenoriaethu yn y cynllun hyfforddiant i gefnogi'r unigolion hynny o bob cwr o Gymru mewn unrhyw sefydliadau gwaith Ieuencid sy'n dymuno ymgymryd â'r hyfforddiant.

Ar ôl hidlo'r data, mae mwyafrif y sefydliadau sydd wedi adrodd bod ymarferwyr naill ai heb unrhyw gymwysterau ffurfiol neu â chymhwyster Lefel 2 mewn Ymarfer neu Egwyddorion Gwaith Ieuencid yn dod o'r sector gwirfoddol, gyda nifer fach o ymatebwyr o'r sector awdurdod lleol hefyd. Yn ddaearyddol, nid yw'r data'n awgrymu ardal ddaearyddol benodol y mae angen ei thargedu gan ei bod yn gyffredinol gytbwys ar draws Cymru, er ychydig yn llai yn Ne-ddwyrain Cymru. Gan hynny, argymhellir y dylid cynnig hyfforddiant ar gyfer cymwysterau Gweithwyr Cymorth Ieuencid yn gyfartal ledled Cymru, gan roi cefnogaeth i sefydliadau ddatblygu'r isadeiledd sy'n gysylltiedig â darparu cymwysterau Gwaith Ieuencid (ffigur 33).


Fel y nodwyd eisoes, mae'n rhaid i ymarferwyr feddu ar o leiaf Tystysgrif Lefel 3 mewn Ymarfer Gwaith Ieuencid erbyn mis Mai 2025, neu maent mewn perygl o gollu eu statws cofrestredig, a fyddai'n golygu na fyddent yn gallu cynnig Gwaith Ieuencid am dâl. Mae'r siart isod yn amlygu unwaith eto bod angen cefnogi'r sector i ddarparu'r cymhwyster Gwaith Ieuencid gofynnol ynghyd â chymwysterau i ymarferwyr allu tiwtora, asesu a sicrhau ansawdd cymwysterau galwedigaethol yn seiliedig ar gymwysterau.

Ffigur 58: A oes angen hyfforddiant / bwllch hyfforddiant yn y cymwysterau canlynol yn eich sefydliad?



Nifer y sefydliadau: 42


Ffigur 59: A oes unrhyw rwystrau sy'n atal staff rhag cael mynediad at hyfforddiant a chymwysterau?



Nifer y sefydliadau: 42

Gofynnwyd cwestiwn ychwanegol i'r ymatebwyr hynny a ddewisodd "Oes", fel y gwelir yn Ffigur 45.

Ffigur 60: Dewiswch y rhwystrau sy'n atal eich sefydliad rhag cael mynediad at hyfforddiant a chymwysterau.



Rhoddwyd opsiynau i ymatebwyr ddewis yr holl ddewisiadau a oedd yn berthnasol iddyn nhw. Gan hynny, efallai nad yw cyfansymiau'r rhesi'n cyfateb i gyfanswm y sefydliadau. Mae canrannau wedi'u cyfrifo gan ddefnyddio cyfansymiau'r rhesi fel rhifiadur a nifer y sefydliadau fel enwadur.

Mae ymatebion 'Eraill' yn nodi materion gofal plant, costau teithio a llety, diffyg hyfforddiant ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg a staff yn amharod i hyfforddi oherwydd oriau amhendant a thâl isel.

Fel y naratif uchod, er mwyn i unrhyw gyrsiau cymhwyster neu ddysgu proffesiynol ddigwydd, argymhellir y dylai caffael hyfforddiant ar gyfer ymarferwyr fod mor gost effeithiol ag sy'n bosibl, yn hygyrch ac yn hyblyg er mwyn eu hannog i fynychu.

Testun agored - beth yw'r tri angen hyfforddiant pwysicaf yn eich sefydliad?

Yr angen mwyaf cyffredin a nodwyd o ran hyfforddiant oedd cymwysterau gwaith ieuentid proffesiynol, ac yna hyfforddiant diogelu. Roedd anghenion eraill a nodwyd yn cynnwys arweinyddiaeth a rheoli, iechyd meddwl a chefnogaeth trawma ac ymdrin / delio ag ymddygiad heriol mewn modd cadarnhaol.

Nifer y sefydliadau: 38


Mae'r ymatebion testun agored yn ategu rhai o'r pwyntiau a godwyd yn yr arolwg unigolion o ran hyfforddiant diogelu, arweinyddiaeth a rheoli, cefnogaeth iechyd meddwl a thrawma. Yn aml mae Gweithwyr Ieuentid yn gweithio gyda phobl ifanc ag ymddygiad heriol, ac ar hyn o bryd cwmpeisir hyn fel uned orfodol yn y Dystysgrif Lefel 3 mewn Ymarfer Gwaith Ieuentid, felly trwy gymryd rhan yn y cymhwyster Cymorth Ieuentid, dylai hyn roi digon o wybodaeth i ymarferwyr am sut i ymdrin ag ymddygiad heriol. Er hynny, dylid cynnal ymchwiliad pellach i archwilio p'un a yw hynny'n ddigonol neu a oes angen dysgu pellach.



Recriwtio a Chadw

Mae recriwtio a chadw'n dal i fod yn broblem yn y sector Gwaith leuenctid yng Nghymru: mae'r siart isod yn ffigur 46 yn darparu tystiolaeth bod mwy na 80% o sefydliadau wedi'u heffeithio gan recriwtio a chadw. Mae Ffigur 47 yn dangos i ba raddau y mae recriwtio a chadw yn effeithio'n ddwfn ar sefydliadau, gyda lledaeniad cyfartal o faterion. Gallai'r uchaf ohonynt, 'staff sy'n gweithio y tu hwnt i'w gallu', effeithio ar gadw staff gan fod staff yn gallu cael eu gorweithio, gan arwain at orflinder posibl. Mae'r data hefyd yn dangos bod recriwtio a chadw yn effeithio ar ddarpariaeth i bobl ifanc.


Ffigur 61: Yn ystod y 12 mis diwethaf, a yw recriwtio a chadw staff Gwaith leuenctid wedi effeithio ar allu eich sefydliad i ddarparu gwasanaethau i bobl ifanc?



Nifer y sefydliadau: 41

Gofynnwyd cwestiwn ychwanegol i'r ymatebwyr hynny a ddewisodd "Ydy", fel y gwelir yn Ffigur 47.

Ffigur 62: Sut mae recriwtio a chadw staff Gwaith leuenctid wedi effeithio ar allu eich sefydliad i ddarparu gwasanaethau i bobl ifanc yn ystod y 12 mis diwethaf?




Rhodddwyd opsiynau i ymatebwyr ddewis yr holl ddewisiadau a oedd yn berthnasol iddyn nhw. Gan hynny, efallai nad yw cyfansymiau'r rhesi'n cyfateb i gyfanswm y sefydliadau. Mae canrannau wedi'u cyfrifo gan ddefnyddio cyfansymiau'r rhesi fel rhifiadur a nifer y sefydliadau fel enwadur.

Roedd ymatebion 'Eraill' yn sôn yn gyffredinol am brinder staff sy'n gysylltiedig â cholli cyllid, diswyddiadau a methu â recriwtio yn ogystal â diffyg amser i staff presennol gael eu hyfforddi a methu â darparu gwasanaethau yn Gymraeg.

Recriwtio

Mae'r adran isod yn ymwneud â dealltwriaeth o'r darlun recriwtio sy'n wynebu sefydliadau wrth recriwtio staff Gwaith leuenctid addas, a'r effaith mae materion recriwtio wedi'i gael ar sefydliadau a'u gallu i weithio gyda phobl ifanc.

Ffigur 63: Yn ystod y 12 mis diwethaf, a yw eich sefydliad wedi llwyddo i recriwtio staff Gwaith leuenctid sydd eu hangen ar eich sefydliad i ddarparu gwasanaethau i bobl ifanc?




Nifer y sefydliadau: 41

Gofynnwyd cwestiwn ychwanegol i'r ymatebwyr hynny a ddewisodd "Na", fel y gwelir yn Ffigur 49.

Mae'r data uchod yn dangos bod dros hanner y sefydliadau wedi gallu recriwtio, er hynny nid yw'n glir p'un a yw rhai sefydliadau wedi bod yn llwyddiannus neu'n aflwyddiannus wrth recriwtio ymarferwyr Gwaith leuenctid.

Ffigur 64: Sut mae’ch sefydliad wedi methu â recriwtio staff Gwaith leuenctid yn llwyddiannus?



Nifer y sefydliadau: 12

Rhodddwyd opsiynau i ymatebwyr ddewis yr holl ddewisiadau a oedd yn berthnasol iddyn nhw. Gan hynny, efallai nad yw cyfansymiau’r rhesi’n cyfateb i gyfanswm y sefydliadau. Mae canrannau wedi’u cyfrifo gan ddefnyddio cyfansymiau’r rhesi fel rhifiadur a nifer y sefydliadau fel enwadur.


Roedd ymatebion ‘Eraill’ yn cynnwys contractau a chyllid byrdymor, rhewi swyddi, a chynnig swyddi dan hyfforddiant yn hytrach na recriwtio staff cwbl hyfforddedig.

Yn ffigur 49, amlygir yn glir bod angen help ar ymarferwyr gyda cheisiadau am swyddi, gan fod nifer yn datgan bod safon y ceisiadau swyddi wedi bod yn isel.

Cadw

Mae’r adran isod yn rhoi amlinelliad o gadw ymarferwyr Gwaith leuenctid yn eu sefydliadau, fel modd o ddeall faint o staff sy’n gadael a’r rhesymau dros hynny. Mae’r data isod yn dangos bod cadw staff yn effeithio ar bob rhan o’r sector, er hynny mae cyfran uchel o’r ymarferwyr sy’n gadael yn dod o’r awdurdodau lleol.

Ffigur 65: Yn ystod y 12 mis diwethaf, a yw eich sefydliad wedi gweld staff Gwaith leuenctid yn gadael y sefydliad?




Nifer y sefydliadau: 41

Gofynnwyd cwestiwn ychwanegol i’r ymatebwyr hynny a ddewisodd “Ydy”, fel y gwelir yn Ffigur 51.

Mae Ffigur 52 yn dangos mai bron hanner y rhesymau hysbys dros ymarferwyr yn gadael eu sefydliad yw ‘Gweithwyr leuenctid yn gadael ar gyfer rolau â chyflog uwch nad ydynt mewn Gwaith leuenctid’. Gall hyn olygu bod proffesiynau / sefydliadau eraill nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â Gwaith leuenctid yn gwerthfawrogi’r sgiliau sydd gan Weithwyr leuenctid. Mae’r ymatebion eraill yn rhoi rhesymau cymysg.


Ffigur 66: Faint o staff Gwaith leuenctid sydd wedi gadael y sefydliad yn ystod y 12 mis diwethaf? (fesul sector)



Nifer y sefydliadau: 31

Mae'r sectorau 'Eraill' y mae staff Gwaith leuenctid wedi gadael y sefydliad i fynd iddynt yn cynnwys Addysg, Addysg Bellach ac Addysg Oedolion, sefydliadau mewn lifrau a gwasanaethau brys.

Ffigur 67: Os yw'n hysbys, beth oedd y prif resymau a roddwyd dros staff Gwaith leuenctid yn gadael eich sefydliad yn ystod y 12 mis diwethaf?



Nifer y sefydliadau: 31


Rhoddyd opsiynau i ymatebwyr ddewis yr holl ddewisiadau a oedd yn berthnasol iddyn nhw. Gan hynny, efallai nad yw cyfansymiau'r rhesi'n cyfateb i gyfanswm y sefydliadau. Mae canrannau wedi'u cyfrifo gan ddefnyddio cyfansymiau'r rhesi fel rhifiadur a nifer y sefydliadau fel enwadur.

Roedd ymatebion 'Eraill' yn cynnwys diffyg sicrwydd swydd, diswyddiadau / diffyg cyllid i gadw staff, a symud i swyddi sy'n fwy hirdymor neu lawn amser.

Darpariaeth Gwaith Ieuencid Gymraeg


Fel rhan o Cymraeg 2050, mae'r sector Gwaith Ieuencid yng Nghymru yn cefnogi targed Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, yn ogystal â chefnogi pobl ifanc i gael mynediad at wasanaethau Gwaith Ieuencid yn Gymraeg neu Saesneg.

Ffigur 68: A yw eich sefydliad yn cynnig unrhyw rai o'ch gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig ar hyn o bryd?



Nifer y sefydliadau: 41


Ffigur 69: A yw eich sefydliad yn cynnig unrhyw rai o'ch gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig ar hyn o bryd?



Nifer y sefydliadau: 41

Ffigur 70: A yw eich sefydliad yn cynnig unrhyw rai o'ch gwasanaethau'n ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg ar hyn o bryd?


Yn y siart isod, gofynnwyd i ymatebwyr am y gwasanaethau a ddarperir yn Gymraeg a Saesneg, er hynny mae'n agored i ddehongliad gan nad oes unrhyw ddiffiniad ffurfiol o ddarpariaeth ddwyieithog o Waith Ieuencid, gan fod gan rai sefydliadau eu diffiniadau neu bolisiau eu hunain ar gyfer darpariaeth gwasanaeth.



Nifer y sefydliadau: 41


Gofynnwyd cwestiwn ychwanegol i'r ymatebwyr hynny a ddewisodd "Ydy", fel y gwelir yn Ffigur 56.

Ffigur 71: A yw'r gwasanaethau dwyieithog y mae'ch sefydliad yn eu cynnig mewn partneriaeth ag unrhyw sefydliad(au) eraill?




Nifer y sefydliadau: 31

Ffigur 72: A yw eich sefydliad yn cynnig cyfle i bobl ifanc ddysgu am Gymru e.e. y Gymraeg, diwylliant a hanes Cymru gyda phobl ifanc?



Nifer y sefydliadau: 41


Ffigur 73: Dros y 5 mlynedd diwethaf, a yw eich sefydliad wedi ceisio cynyddu lefel y gwasanaethau a gynigir trwy gyfrwng y Gymraeg / yn ddwyieithog?



Nifer y sefydliadau: 41

Gofynnwyd cwestiwn ychwanegol i'r ymatebwyr hynny a ddewisodd "Ydy", fel y gwelir yn Ffigur 59.

Ffigur 74: Pa heriau mae eich sefydliad wedi'u hwynebu wrth geisio cynyddu lefel y gwasanaethau a gynigir trwy gyfrwng y Gymraeg / yn ddwyieithog?




Nifer y sefydliadau: 35

Rhoddwyd opsiynau i ymatebwyr ddewis yr holl ddewisiadau a oedd yn berthnasol iddyn nhw. Gan hynny, efallai nad yw cyfansymiau'r rhesi'n cyfateb i gyfanswm y sefydliadau. Mae canrannau wedi'u cyfrifo gan ddefnyddio cyfansymiau'r rhesi fel rhifiadur a nifer y sefydliadau fel enwadur.

Roedd ymatebion 'Eraill' yn cynnwys diffyg hyder staff i ddarparu hyfforddiant yn Gymraeg ac anawsterau recriwtio staff sy'n rhugl ac yn gwbl gymwys, yn ogystal â dim heriau oherwydd llwyddo i gynyddu lefel y gwasanaethau.


Ffigur 75: Beth yw'r maes pwysicaf a fydd yn helpu eich sefydliad i gynyddu lefel y gwasanaethau a gynigir trwy gyfrwng y Gymraeg / yn ddwyieithog?



Nifer y sefydliadau: 41

Roedd ymatebion 'Eraill' yn cynnwys cynyddu digonolrwydd Gwaith leuenctid er mwyn caniatáu mwy o ffocws ar Waith leuenctid cyfrwng Cymraeg, mwy o gyllid a gwell perthynas gydag ysgolion cyfrwng Cymraeg yn yr ardal.

Ffigur 76: A yw eich sefydliad wedi ymgysylltu â phobl ifanc o gwbl i gasglu eu barn am ddarpariaeth Gwaith leuenctid cyfrwng Cymraeg?



Nifer y sefydliadau: 41

Mae mwyafrif yr ymatebion uchod yn awgrymu bod sefydliadau'n cynnig Gwaith leuenctid dwyieithog neu mewn partneriaeth â sefydliad(au) arall/eraill. Tra bo 58% o sefydliadau'n cynnig un gwasanaeth neu fwy i bobl ifanc yn Gymraeg, mae niferoedd cymharol fach o siaradwyr Cymraeg rhugl, fel y dangosir yn y ddau arolwg. Drwy fynd i'r afael â'r angen i gynyddu mwy o siaradwyr Cymraeg rhugl, sy'n gallu cynnig Gwaith leuenctid trwy gyfrwng y Gymraeg, gall arwain at gynnydd gwirioneddol yn y ddarpariaeth Gymraeg. Mae'r data uchod hefyd yn awgrymu bod awch o fewn y sector am gefnogi Gweithwyr leuenctid presennol i ddysgu Cymraeg a defnyddio'r iaith yn hyderus wrth weithio gyda phobl ifanc.

Crynodeb o'r camau gweithredu i'w dilyn:

Defnyddir canlyniadau'r Archwiliad Sgiliau a Hyfforddiant i siapio'r rhaglen hyfforddiant ar gyfer Gwaith Ieuencid yng Nghymru dros y 12 / 24 mis nesaf. Bydd gwaith yn cael ei wneud, ac mae eisoes ar y gweill, i nodi hyfforddiant sy'n diwallu anghenion ymarferwyr ac yn cefnogi eu datblygiad proffesiynol a'u hyder i ddarparu gwasanaethau gwaith ieuencid effeithiol i bobl ifanc Cymru.

Yn benodol, ein bwriad yw:

1. Datblygu rhaglen hyfforddiant gadarn a chanolbwyntio ymdrechion ar ddarparu a rhoi cefnogaeth i gymwysterau Gwaith Ieuencid fel bod ymarferwyr yng Nghymru'n gallu cofrestru fel Gweithwyr Ieuencid a Gweithwyr Cymorth Ieuencid gyda Chyngor y Gweithlu Addysg. Mae'r arolwg hwn yn awgrymu bod nifer sylweddol o ymarferwyr heb Dystysgrif Lefel 3 mewn Ymarfer Gwaith Ieuencid. Nid yw'n realistig cyflawni hyn mewn blwyddyn, felly dylai ffurfio rhan o gynllun 3 blynedd.
2. Cynnwys cefnogaeth i sefydliadau ac ymarferwyr yn y rhaglen hyfforddiant er mwyn datblygu'r isadeiledd o amgylch darparu cymwysterau trwy gynnis Tystysgrif Lefel 3 mewn Addysg a Hyfforddiant, Asesu mewn Cymwysterau Galwedigaethol a Sicrwydd Ansawdd Mewnol. Bydd hyn yn cynorthwyo i ddarparu cymwysterau gyda phobl ifanc a Gweithwyr Ieuencid.
3. Datblygu hyfforddiant diogelu y gellir ei ddefnyddio mewn lleoliad Gwaith Ieuencid ond nad yw'n cymryd lle fframwaith hyfforddi grŵp A a B, a ddatblygwyd gan Gofal Cymdeithasol Cymru (ceir mwy o wybodaeth [yma](#)).
4. Datblygu fframwaith blaengar o hyfforddiant Arweinyddiaeth a Rheoli mewn lleoliad Gwaith Ieuencid ar gyfer ymarferwyr, gan gydnabod y gall arweinyddiaeth ddigwydd ar sawl lefel, ac i gefnogi'r rhai sy'n dyheu am rolau rheoli yn y dyfodol.
5. Datblygu rhaglen hyfforddi sy'n cynnwys pynciau dysgu proffesiynol a amlinellir yn ffigur 17-21 am yr arolwg unigolion. Dylid rhoi blaenoriaeth i bynciau gyda 15% neu fwy o ymatebwyr yn dewis anhyderus iawn neu eithaf anhyderus yn y maes pwnc penodol hwnnw.
6. Hyrwyddo a chyfeirio ymarferwyr at raglenni presennol i ddysgu Cymraeg, a gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu mentrau i weithwyr fagu hyder i ddefnyddio'r Gymraeg a'i chymhwyso mewn darpariaeth Gwaith Ieuencid.
7. Cynnal Archwiliad Sgiliau a Hyfforddiant yn rheolaidd, ond nid yn flynyddol, i fonitro cynnydd a blaenoriaethu hyfforddiant; a chychwyn arolygon dysgu proffesiynol yn flynyddol i sicrhau bod Gweithwyr Ieuencid yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y tueddiadau ac anghenion diweddaraf pobl ifanc.
8. Datblygu hyfforddiant a chymwysterau sy'n hygyrch, yn fodern ac yn gymysgedd o ddulliau traddodiadol ac 'anraddodiadol', i sicrhau y gall ymarferwyr gael mynediad at hyfforddiant sy'n briodol ac yn hyblyg, a bod darpariaeth ar gyfer pobl ifanc yn parhau i fod yn berthnasol ac yn diwallu anghenion.

Diolch arbennig i'r holl gyfranogwyr a sefydliadau a gymer